CLWB CYMRU

RECRIWTIO GWIRFODDOLWYR NEWYDD

Mae sut i recriwtio gwirfoddolwyr newydd, a ble i ddod o hyd i ymgeiswyr, yn un o'r heriau mwyaf y gall clybiau eu hwynebu.

Gall gwneud cynllun recriwtio deimlo fel tasg feichus iawn, yn enwedig pan fydd gennych lawer i'w wneud eisoes fel rhan o'ch rôl wirfoddoli eich hun. Fodd bynnag, bydd hyd yn oed neilltuo ychydig bach o amser i weithio drwy rai o'r camau isod yn beth da, gan eich helpu i sicrhau nad yw'r un wynebau yn rhoi eu llaw i fyny i helpu bob amser.

Mae pob clwb yn wahanol a bydd eich angen am wirfoddolwyr yn newid dros amser hefyd. Felly peidiwch â theimlo bod rhaid i chi wneud popeth ar unwaith. Dechreuwch gyda newid rhywbeth bach a gweithio o hynny. Dros amser, dylech allu sefydlu proses recriwtio wych a fydd yn eich helpu i ddenu gwirfoddolwyr newydd i'ch clwb am flynyddoedd lawer i ddod.

1. RHOI ADNODDAU GWIRFODDOLI A RECRIWTIO AR EICH AGENDA REOLAIDD

Gwnewch yn siŵr bod hyn yn rhywbeth y mae eich pwyllgor yn siarad amdano'n rheolaidd drwy ei gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda. Hefyd edrychwch ar y canllawiau Cynllunio Olyniaeth.

Rhowch sylw i'r cwestiynau canlynol i ddeall eich sefyllfa bresennol a pha gamau y gallai fod angen i chi eu cymryd:

Oes unrhyw dasgau / digwyddiadau / momentau allweddol ar y gweill y bydd arnoch angen mwy o help gyda nhw?

Oes unrhyw un yn ystyried camu i lawr o'u rôl? Os felly, pryd? Edrychwch ar y canllawiau Cynllunio Olyniaeth i gael mwy o wybodaeth am hyn.

Oes gan unrhyw wirfoddolwyr presennol ormod ar eu plât ac os felly, pa dasgau y gallai rhywun arall helpu gyda nhw.

2. BOD YN BENODOL IAWN AM YR HYN SYDD ARNOCH EI ANGEN

Treuliwch ychydig o amser yn mapio'r manylion penodol. Bydd hyn yn eich helpu i dargedu'r math priodol o berson ar gyfer y rôl a bydd yn sicrhau bod darpar wirfoddolwyr yn gwybod yn union beth maen nhw'n ymrwymo iddo.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

Pa swyddogaeth (au) ydych chi eisiau eu llenwi / pa dasg sydd angen ei gwneud?

Beth yw'r elfennau penodol sy'n rhan o'r rôl / dasg hon?

Pryd fydd arnoch angen y gwirfoddolwr a faint o amser fydd y rôl / dasg yn ei gymryd?

Pa sgiliau allweddol fyddai gan wirfoddolwr delfrydol ar gyfer y rôl neu'r dasg hon?

Gallai'r templed disgrifiadau rôl ar Clwb Cymru fod yn bwynt cyfeirio da wrth i chi weithio drwy'r cwestiynau uchod.

3. NODI POBL / GRWPIAU A ALLAI FOD Â'R SGILIAU SYDD ARNOCH EU HANGEN A BLE GALLECH DDOD O HYD IDDYNT

Er enghraifft, efallai y bydd gan berson ifanc y sgiliau priodol i'ch helpu chi gyda chyfryngau cymdeithasol. Gallech geisio recriwtio pobl ifanc o blith eich aelodaeth gyfredol neu drwy ysgolion, colegau neu brifysgolion lleol.

Ceisiwch fod mor eang â phosib wrth feddwl am bobl newydd bosib a meddwl y tu allan i'ch cronfa bresennol o wirfoddolwyr fel na fyddwch chi'n rhoi mwy o dasgau i wirfoddolwyr presennol.

Ble gallech ddod o hyd i wirfoddolwyr newydd:

Eich rhwydwaith uniongyrchol:

- Aelodau'r clwb sydd ddim yn gwirfoddoli ar hyn o bryd
- Rhieni aelodau
- Eich ffrindiau (a ffrindiau i ffrindiau)
- Noddwyr neu fusnesau lleol sy'n cefnogi'r clwb eisoes

Ymhellach i ffwrdd:

- Ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol
- Grwpiau cymunedol lleol fel sgowtiaid / guides neu glybiau ieuenctid
- Dyfarniadau cymunedol neu raglenni dysgu fel cwrs Dug Caeredin (https://www.dofe.org/) neu Fagloriaeth Cymru (https://gov.wales/welsh-baccalaureate)
- Clybiau chwaraeon cymunedol eraill
- Gwasanaeth gwirfoddoli lleol
- Portholau ar-lein fel Do-It, LinkedIn, neu eich awdurdod lleol

DECHRAU GYDA NEWID RHYWBETH

BACH

4.NODI'R BUDD I'R GWIRFODDOLWR POSIB

Y cam olaf cyn mynd at ddarpar wirfoddolwr yw meddwl pam y gallent fod eisiau helpu. Os gallwch apelio at eu cymhellion a dangos y budd y byddant yn ei gael o wirfoddoli, byddant yn fwy tebygol o fod eisiau helpu.

Meddwl am Gymhellion

Rhai awgrymiadau ar gyfer gwahanol agweddau ar wirfoddoli a allai apelio at wahanol bobl:

Dysgu sgil newydd / ychwanegu profiad at eu CV (gall fod yn gymhelliant arbennig i wirfoddolwyr iau)

Treulio amser gyda'u plant

Gwneud cyfraniad at y gymuned leol

Gwneud ffrindiau newydd / cyfleoedd newydd i gymdeithasu

Cariad at bêl-droed!

Bod yn ymwybodol o rwystrau posib a helpu i wneud y rhain yn haws eu goresgyn

Mae'n werth ystyried rhai o'r rhwystrau posib y gallai fod angen i bobl eu goresgyn cyn cofrestru i fod yn wirfoddolwr a'r hyn y gallai eich clwb ei wneud i leihau'r rhain:

Amser

Mae hwn yn rhwystr cyffredin felly rydyn ni'n meddwl sut gallech chi rannu swyddogaethau i leihau'r ymrwymiad amser ar gyfer darpar wirfoddolwyr. Mae mwy o wybodaeth i'ch cefnogi chi yn y maes hwn ar gael yma.

Ymrwymiadau gwaith

Oes tasgau y gellid eu cwblhau yn ystod amser cinio neu y gellid eu rhannu dros nifer o ddyddiau neu wythnosau

Ddim eisiau'r ymrwymiad tymor hir

Ystyriwch ddefnyddio cynorthwywyr a allai gynorthwyo swyddogaethau eraill i roi blas i wirfoddolwyr newydd a galluogi iddynt beidio â theimlo eu bod yn ymrwymo gormod

Diffyg hyder

Sut allwch chi wneud yr amgylchedd yn gyfeillgar, yn enwedig os ydyn nhw'n teimlo nad oes ganddyn nhw lawer o wybodaeth am bêl droed - efallai y gallent ddod â ffrind i'w cefnogi

Diffyg gwybodaeth neu sgiliau

Meddyliwch sut gallwch chi eu cefnogi drwy hyfforddiant neu fentora

5. MYND ATI I'W HOLI

Nawr eich bod chi'n gwybod beth sydd ei angen yn union, pwy rydych chi'n eu targedu a pham fod ganddyn nhw ddiddordeb mewn gwirfoddoli efallai, gallwch chi ddechrau recriwtio'r person addas.

Mae llawer o ffyrdd o wneud hyn, ac efallai na fydd yr hyn sy'n iawn ar gyfer un rôl neu gynulleidfa darged yn iawn i un arall. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio cyfuniad o'r tactegau isod i ledaenu'r neges ymysg cymaint o bobl â phosib.

- [ ] Postio ar gyfryngau cymdeithasol (ar eich tudalennau clwb eich hun ac unrhyw dudalennau cymunedol lleol perthnasol); gwneud recriwtio a chydnabod gwirfoddolwyr yn nodwedd reolaidd ar eich sianeli cymdeithasol
- [ ] Diweddaru gwefan eich clwb a'ch cylchlythyrau e-bost gyda chyfleoedd gwirfoddoli byw
- [ ] Rhoi taflenni / posteri mewn busnesau / archfarchnadoedd lleol / ar hysbysfyrddau cymunedol
- [ ] Mynd at bobl neu grwpiau yn uniongyrchol. Nid yw llawer o bobl yn gwirfoddoli am nad oes unrhyw un wedi gofyn iddynt wneud hynny - yn enwedig aelodau presennol y clwb!
- [ ] Trefnu digwyddiad neu noson gymdeithasol lle gallwch chi holi am wirfoddolwyr
- [ ] Gofyn i'ch holl wirfoddolwyr ac aelodau clwb presennol ledaenu'r gair

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu yng nghamau 1 i 4 i fod mor benodol â phosib am yr hyn sy'n ofynnol, ac i ddod â'r agweddau cadarnhaol y gall gwirfoddoli eu cynnig yn fyw. Mae rhywun yn fwy tebygol o gytuno os yw'n swnio'n hwyl, ac os ydyn nhw'n gwybod yn union ar gyfer beth maen nhw'n cofrestru!

6. DILYNIANT

Peidiwch â rhoi'r gorau iddi os nad oes unrhyw un yn rhoi ei law i fyny ar ôl eich cynnig cyntaf. Gall fod yn demtasiwn ildio ar y pwynt hwn a gwneud y gwaith eich hun, ond mae'n hanfodol mynd ar ôl eich allgymorth cychwynnol. Cofiwch, mae recriwtio yn weithgaredd cyson.
Efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i rywun feddwl a yw am fod yn wirfoddolwr, a gallai sgwrs neu neges i atgoffa o'r cyfle fod yr union beth y mae angen er mwyn mynd amdani. Yn yr un modd, peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd pawb wedi darllen eich e-bost neu wedi gweld eich post ar gyfryngau cymdeithasol - efallai y bydd angen i chi sôn am y cyfle sawl gwaith cyn i'r neges gyrraedd pawb.

7. BOD YN HYBLYG

Yn fwy na dim, ceisiwch ddysgu o'r broses recriwtio wrth fynd yn eich blaen. Dylech gael sgyrsiau gyda'r grwpiau neu'r unigolion rydych chi'n eu targedu i ddeall eu persbectif a chael rhywfaint o adborth. Efallai y byddwch yn gweld y bydd rhywun yn barod i ymgymryd â rhan fechan o rôl, yr hoffai ei rhannu â rhywun arall, neu yr hoffai roi cynnig arni yn gyntaf cyn ymrwymo'n llawn. Ac os yw'r wybodaeth hon gennych chi, rydych chi'n gwybod yn union beth i'w wneud i sicrhau y gallwch chi recriwtio'r gwirfoddolwr hwnnw!